SAFONAU CENEDLAETHOL AR GYFER CYNGHORAU IECHYD CYMUNED YNG NGHYMRU

Mawrth 2021

CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

BWRDD CYMRU | WALES BOARD

Cynnwys

Cynnwys

Cyflwyniad 4
Pwrpas y safonau cenedlaethol 5
Cwrdd â'r safonau cenedlaethol 6
Y safonau cenedlaethol 8
Ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion annibynnol 9
Sut mae'r safonau'n berthnasol i'n gwasanaeth eiriolaeth cwynion annibynnol 10
Craffu 13
Sut mae'r safonau'n berthnasol i'n gweithgareddau craffu 15
Ymgysylltu parhaus 18
Sut mae'r safonau'n berthnasol i'n gweithgareddau ymgysylltu parhaus 19
Newidiadau i wasanaethau 22
Sut mae'r safonau'n berthnasol i'n rôl ni mewn newidiadau i wasanaethau 23
Cysylltu â ni 26

Cyflwyniad

Mae gwaith pwysig gan Gynghorau Iechyd Cymuned (CICau) i'w wneud wrth gynrychioli buddiannau'r claf a'r cyhoedd, yn annibynnol a heb duedd, yn y ffordd mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn cael ei gynllunio a'i ddarparu yng Nghymru.

Ceir 7 CIC yng Nghymru, gyda phob un yn cynrychioli ardal ddaearyddol benodol, yn unol â'r 7 Bwrdd Iechyd Lleol, sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau GIG i'r ardal honno.

Mae'r CICau yn cynnwys aelodau gwirfoddol, sy'n byw yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu, ac fe'u cefnogir gan dimau bychain o staff.

Ble bynnag rydych yn byw yng Nghymru, gallwch ddisgwyl i'ch CIC weithio'n ddiflino ar eich rhan, fel bod barnau a phrofiadau'r bobl sy'n byw yn eich cymuned yn cael eu cynrychioli, yn lleol ac yn genedlaethol, er mwyn cael dylanwad a gwella gwasanaethau GIG i bawb.

Er mwyn i chi gael gwybod beth gallwch ei ddisgwyl gan eich CIC, a bod yn sicr fod y gweithgareddau a gyflawnir er eich budd chi o ansawdd uchel, mae'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru, "y Bwrdd CICau", yn cynnig cyngor, cyfarwyddyd a chymorth i'r CICau, ar draws eu hystod o weithgareddau.

Mae Bwrdd CICau yn gyfrifol am fonitro a rheoli perfformiad CICau sy'n ymgymryd â'u gweithgareddau.

Pwrpas y safonau cenedlaethol

Mae Bwrdd CICau wedi sefydlu set o safonau cenedlaethol ar gyfer gwaith y CICau yng Nghymru. Lluniwyd y safonau cenedlaethol yma er mwyn creu darlun eglur o sut ddylai gweithgareddau'r CICau edrych a theimlo, yn ymarferol, o safbwynt y claf a'r cyhoedd.

Mae'r safonau cenedlaethol yn gosod sylfaen i CICau gynllunio, darparu, monitro ac adrodd ar eu gweithgareddau. Mae gwneud hynny yn y modd hwn yn golygu bod y CICau yn gallu dangos yn well sut maent yn diwallu anghenion a buddiannau eu cymunedau lleol, wrth ymgymryd â'u gweithgareddau.

Mae Bwrdd CICau yn mynd ati'n weithgar i fonitro a rheoli perfformiad y CICau, gan ddefnyddio'r safonau cenedlaethol fel meincnod. Er mwyn gwneud hyn, mae Bwrdd CICau wedi sefydlu Pwyllgor Safonau a Pherfformiad. Gallwch gael gwybod mwy am waith y pwyllgor hwn ar ein gwefan.

Nid yw'r safonau cenedlaethol yn diffinio pa flaenoriaethau a gweithgareddau ddylai eich CIC eu cyflawni ar eich rhan - mae hynny yn fater i'ch CIC chi i'w benderfynu - trwy wrando arnoch chi (a'r rheiny sy'n eich cynrychioli) am y pethau sydd bwysicaf i chi am y GIG yn eich cymunedau lleol. Er hynny, maent yn helpu i sicrhau bod y seiliau mae'r CICau yn gwneud eu penderfyniadau arnynt yn rhai da.

Nid yw'r safonau cenedlaethol eu hunain yn darparu arweiniad manwl, gweithdrefnau safonol, cyfarwyddiadau na dogfennaeth sy'n nodi'n union sut ddylai'r CICau gyflawni eu gweithgareddau.

Fodd bynnag, maent yn rhoi sail glir i'r CICau weithio gyda Bwrdd CICau i adolygu, cryfhau a datblygu cyfarwyddyd pellach, gweithdrefnau, cyfarwyddiadau a dogfennaeth, sy'n helpu'r CICau i weithio mewn ffordd gyson.

Cwrdd â'r safonau cenedlaethol

Mae'r safonau cenedlaethol yn berthnasol i 4 prif swyddogaeth y CICau. Gellid disgrifio'r rhain fel:

- galluogi defnyddwyr y GIG i godi pryderon am y gwasanaethau maent yn eu derbyn drwy **Wasanaeth Eiriolaeth Cwynion Annibynnol**
- **ymweld, monitro a chraffu** gwasanaethau iechyd lleol yn systematig
- **ymgysylltu parhaus** gyda'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu, a'r darparwyr gwasanaeth iechyd sy'n gwasanaethu'r cymunedau hynny

- cynrychioli buddiannau'r claf a'r cyhoedd wrth gynllunio a chytuno ar **newidiadau i wasanaethau** GIG.

Ceir set o ddangosyddion ar gyfer pedair prif swyddogaeth y CICau, sy'n greiddiol i'r safonau cenedlaethol. Ni fwriadwyd i'r rhain gynnwys popeth. Gall y CICau ddefnyddio'r dangosyddion yma i'w helpu i ddangos eu bod yn cwrdd â'r safonau cenedlaethol.

Lle nad yw CIC eto yn gallu dangos ei fod wedi cyrraedd safon, gall y dangosyddion helpu i nodi pa weithredu pellach all fod ei angen.

Y safonau cenedlaethol

SAFON 1
CICau yn gweithredu er budd y cyhoedd a chleifion yng Nghymru

SAFON 2
CICau yn gweithio'n effeithiol gydag eraill i ddiogelu a hybu lles pobl sy'n defnyddio gwasanaethau GIG

SAFON 3
Gweithgareddau a gwasanaethau CIC yn diwallu anghenion ac yn hygyrch i bawb

SAFON 4
Gweithgareddau CIC yn agored, tryloyw a chynhwysol

SAFON 5
Gweithgareddau CIC yn cael eu harwain, eu hadnoddu a'u cefnogi'n briodol

SAFON 6
CICau yn cynllunio a chyflawni eu gweithgareddau mewn modd sy'n cadw eu hannibyniaeth ac sy'n dangos eu hatebolrwydd i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu

SAFON 7
CICau yn cryfhau llais y claf a'r cyhoedd, trwy weithio gyda'i gilydd a gydag eraill

SAFON 8
CICau yn adlewyrchu barnau a phrofiadau'r claf a'r cyhoedd o wasanaethau GIG

SAFON 9
CICau yn rhannu ac adrodd ar ganlyniadau eu gweithgareddau mewn modd cytbwys ac amserol

SAFON 10
CICau yn gwerthuso effaith eu camau gweithredu, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd mewn gweithgareddau yn y dyfodol

Ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion annibynnol

Mae eiriolaeth yn ymwneud â helpu pobl i gael llais. Mae'r gwasanaeth eiriolaeth cwynion annibynnol, a ddarperir gan y CICau, yma i helpu a chefnogi pobl, er mwyn sicrhau bod eu profiadau a'u pryderon nid yn unig yn cael eu clywed, ond bod camau yn cael eu cymryd i weithredu yn eu cylch hefyd.

Mae'r gwasanaeth eiriolaeth cwynion annibynnol yn cynnig cymorth cyfrinachol, cyngor a chyfarwyddyd i bobl sydd eisiau codi pryder am unrhyw ddarparwr GIG. Mae eiriolwyr cwynion CIC yn anelu at:

- alluogi cleifion, gofalwyr a pherthnasau i gael mynediad at wybodaeth am eu pryderon, a chynnig cyngor ar yr opsiynau sydd ar gael.
- cefnogi cleifion i gyflwyno eu pryderon a'u cwynion i'r GIG i'w hymchwilio.

Darperir y gwasanaeth eiriolaeth cwynion annibynnol mewn modd cyfeillgar, cyfrinachol a chefnogol, sy'n annog y GIG i ddysgu o brofiadau cleifion unigol, er mwyn gwella'r gwasanaeth yn gyffredinol.

Sut mae'r safonau'n berthnasol i'n gwasanaeth eiriolaeth cwynion annibynnol

SAFON 1 - CICau yn gweithredu er budd y cyhoedd a chleifion yng Nghymru
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Lluniwyd ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion i wneud gwahaniaeth i achwynwyr unigol, yn ogystal â gyrru gwelliannau i wasanaethau GIG yn gyffredinol • Mae'r claf a'r cyhoedd yn deall ac yn gwerthfawrogi rôl ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion
SAFON 2 - CICau yn gweithio'n effeithiol gydag eraill i ddiogelu a hybu lles pobl sy'n defnyddio gwasanaethau GIG
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Mae ein staff eiriolaeth cwynion yn adnabod achwynwyr mewn sefyllfaoedd bregus, ac yn ymateb yn briodol • Mae ein staff eiriolaeth cwynion yn adnabod yr arwyddion rhybudd cynnar pan fo gwasanaeth yn methu, ac yn ymateb yn briodol • Mae ein staff eiriolaeth cwynion yn cadw cyfrinachedd cleientiaid, ac maent ond yn datgelu gwybodaeth gyda chydsyniad pendant, oni bai fod perygl uniongyrchol o niwed • Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan ein gwasanaeth eiriolaeth yn urddasol, parchus a sensitif.
SAFON 3 – Gweithgareddau a gwasanaethau CIC yn diwallu anghenion ac yn hygyrch i bawb
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Mae ein gwasanaeth eiriolaeth yn rhad ac am ddim, ac yn hawdd ei ddefnyddio gan unrhyw un sydd eisiau cymorth i wneud cwyn

- Mae ein gwasanaeth eiriolaeth yn darparu gwasanaeth cyfartal, sy'n mynd ati'n weithgar i adnabod a diwallu anghenion unigol.
- Mae ein heiriolwyr yn parchu amrywiaeth y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaeth
- Mae achwynyddion yn ymwybodol o'r gwasanaeth eirioli ac yn gwybod sut i gael mynediad ato
- Mae ein heiriolwyr yn aros ochr yn ochr ag achwynyddion nes bod y cwyn wedi'i ddatrys
- Rydym yn ymgysylltu â'r claf a'r cyhoedd gan ddefnyddio dull cyfathrebu o'u dewis nhw

SAFON 4 - Gweithgareddau CIC yn agored, tryloyw a chynhwysol

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Mae'r cleientiaid yn glir am yr hyn gallant ei ddisgwyl gan ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion, a'r hyn mae'n gallu a ddim yn gallu ei wneud
- Mae ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion yn hybu grymuso unigolion
- Rydym yn defnyddio iaith syml, fel bod ein negeseuon yn glir, dealladwy a heb unrhyw jargon.

SAFON 5 - Gweithgareddau CIC yn cael eu harwain, eu hadnoddu a'u cefnogi'n briodol

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Mae ein staff eiriolaeth cwynion yn hyderus ac yn fedrus gan iddynt gael hyfforddiant a goruchwyliaeth effeithiol
- Mae mynediad gan ein staff eiriolaeth cwynion at ddeunyddiau ac adnoddau addas, i gefnogi ymarfer eiriolaeth effeithiol

SAFON 6 - CICau yn cynllunio a chyflawni eu gweithgareddau mewn modd sy'n cadw eu hannibyniaeth ac sy'n dangos eu hatebolrwydd i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Mae ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion yn darparu gwasanaeth sydd ar ochr y cleient

- Mae ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion yn gweithio ar ran y cleient yn unig
- Mae ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion yn cyflawni ar ei hymrwymiadau
- Nid yw ein staff eiriolaeth cwynion yn gorfod ymdrin ag unrhyw wrthdaro buddiannau, sy'n gallu eu rhwystro rhag gweithredu ar ran y cleient
- Mae ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion yn cyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar ei berfformiad

SAFON 7 - CICau yn cryfhau llais y claf a'r cyhoedd, trwy weithio gyda'i gilydd a gydag eraill

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Mae sefydliadau partner a'r GIG yn ymwybodol, ac yn weithgar wrth hyrwyddo ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion

SAFON 8 - CICau yn adlewyrchu barnau a phrofiadau'r claf a'r cyhoedd o wasanaethau GIG

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Mae ein heiriolwyr cwynion yn cael eu harwain gan farn a dymuniadau'r cleient, ac yn gweithredu'n unig ar gyfarwyddyd y cleient.

SAFON 9 - CICau yn rhannu ac adrodd ar ganlyniadau eu gweithgareddau mewn modd cytbwys ac amserol

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Mae ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion yn cadw mewn cysylltiad â'r cleient, ac yn adrodd ar unrhyw gynnydd yn unol â dymuniadau'r cleient
- Mae ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion yn adnabod, yn monitro ac yn adrodd ar faterion a thueddiadau sy'n deillio o'i waith

SAFON 10 - CICau yn gwerthuso effaith eu camau gweithredu, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd mewn gweithgareddau yn y dyfodol

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Rydym yn gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion
- Rydym yn defnyddio canlyniadau ein gwerthusiad i ddatblygu ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion
- Rydym yn rhannu'r gwersi gydag eraill

Craffu

Mae cyfrifoldeb gan y CICau i graffu'r GIG yn systematig. Maent yn gwneud hyn mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys archwilio gwybodaeth am wasanaethau GIG, a holi cwestiynau i arweinwyr GIG.

Mae gweithgareddau craffu'r CICau yn cynnwys ymgymryd â rhaglen o ymweliadau i wasanaethau GIG, i holi cleifion, teuluoedd a gofalwyr am eu profiadau, ac i weld sut mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu.

Mae'n bwysig bod gweithgareddau craffu yn cael eu cynllunio i wneud gwahaniaeth i'r pethau sydd bwysicaf. Mae'n bwysig bod y CICau yn rhoi gwybod i chi beth maent yn ei wneud er eich budd chi, a sut mae eu gweithgareddau wedi gwneud gwahaniaeth.

Sut mae'r safonau'n berthnasol i'n gweithgareddau craffu

SAFON 1 - CICau yn gweithredu er budd y cyhoedd a chleifion yng Nghymru
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Mae ein gweithgareddau craffu wedi eu cynllunio i wneud gwahaniaeth, a gyrru gwelliannau i wasanaethau GIG • Mae ein gweithgareddau craffu yn gytbwys, yn gymesur ac yn canolbwyntio ar y pethau sydd bwysicaf i'r claf a'r cyhoedd • Mae'r claf a'r cyhoedd yn deall ac yn gwerthfawrogi ein gweithgareddau craffu
SAFON 2 - CICau yn gweithio'n effeithiol gydag eraill i ddiogelu a hybu lles pobl sy'n defnyddio gwasanaethau GIG
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Rydym yn ymateb yn briodol i'r arwyddion cynnar bod gwasanaeth yn methu • Rydym yn gweithredu'n gyflym pan fyddwn yn adnabod y rheiny mewn sefyllfaoedd bregus • Rydym yn cadw cyfrinachedd y claf a'r cyhoedd, oni bai fod perygl uniongyrchol o niwed • Rydym yn cynnal ein gweithgareddau ymweld mewn ffordd sensitif; ac yn parchu urddas a dymuniadau'r claf a'r gofalwr.
SAFON 3 - Gweithgareddau a gwasanaethau CIC yn diwallu anghenion ac yn hygyrch i bawb
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Mae ein gweithgareddau ymweld yn casglu barnau a phrofiadau ystod eang o gleifion a gofalwyr sy'n defnyddio gwasanaethau GIG • Mae ein gweithgareddau craffu yn ymestyn tu hwnt i ffiniau daearyddol, er mwyn diwallu anghenion y rheiny sy'n derbyn gwasanaethau tu allan i'r ardal • Rydym yn ymgysylltu â'r claf a'r cyhoedd gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu maent wedi ei ddewis.

SAFON 4 - Gweithgareddau CIC yn agored, tryloyw a chynhwysol
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Rydym yn mynd ati i geisio barnau a phrofiadau grwpiau na chlywir ganddynt yn aml • Rydym yn defnyddio iaith syml, fel bod ein negeseuon yn glir, dealladwy a heb jargon • Mae ein negeseuon yn hygyrch, ac ar gael mewn amrywiol fformatau.
SAFON 5 - Gweithgareddau CIC yn cael eu harwain, eu hadnoddu a'u cefnogi'n briodol
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Mae ein haelodau a'n staff yn hyderus ac yn gymwys gan iddynt gael hyfforddiant effeithiol • Mae mynediad gan ein haelodau a'n staff at ddeunyddiau ac adnoddau addas i gefnogi gweithgareddau craffu effeithiol
SAFON 6 - CICau yn cynllunio a chyflawni eu gweithgareddau mewn modd sy'n cadw eu hannibyniaeth ac sy'n dangos eu hatebolrwydd i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Rydym yn herio'r GIG mewn modd adeiladol, cadarn a phwrpasol • Rydym yn ceisio barn y claf a'r cyhoedd wrth benderfynu ar ein blaenoriaethau a chynllunio ein gweithgareddau • Rydym yn cyhoeddi ein cynlluniau • Rydym yn cynnal ein cyfarfodydd pwyllgor yn gyhoeddus • Rydym yn cyhoeddi manylion ein gweithgareddau, canfyddiadau a'r canlyniadau a gawn
SAFON 7 - CICau yn cryfhau llais y claf a'r cyhoedd, trwy weithio gyda'i gilydd a gydag eraill
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Rydym yn cydweithio ar faterion a gwasanaethau sy'n rhychwantu ffiniau GIG • Rydym yn cynllunio ein gweithgareddau gydag eraill

- Rydym, fel mater o drefn, yn ceisio ac yn ymateb i wybodaeth gan eraill am wasanaethau GIG yn y cymunedau a wasanaethwn
- Rydym yn cydnabod pan fo eraill mewn gwell sefyllfa i weithredu ynghylch gwybodaeth am wasanaethau GIG, ac yn atgyfeirio'n briodol
- Rydym yn gweithio gyda sefydliadau eraill, pryd bynnag mae hynny er budd gorau'r claf a'r cyhoedd

SAFON 8 - CICau yn adlewyrchu barnau a phrofiadau'r claf a'r cyhoedd o wasanaethau GIG

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Rydym yn adlewyrchu, heb duedd, yr ystod o farnau a phrofiadau y mae'r claf a'r cyhoedd yn eu rhannu
- Rydym yn cytuno ar safle, neu'n gwneud argymhellion ar sail tystiolaeth gadarn o ystod o ffynonellau.

SAFON 9 - CICau yn rhannu ac adrodd ar ganlyniadau eu gweithgareddau mewn modd cytbwys ac amserol

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Rydym yn darparu atborth amserol i ddarparwyr gwasanaethau GIG a sefydliadau eraill am ein canfyddiadau a'n hargymhellion
- Mae ein hadroddiadau'n glir, digamsyniol ac addysgiadol; ac yn nodi beth sy'n gweithio'n dda, a lle mae angen gwelliannau
- Rydym yn cyhoeddi canlyniadau ac effaith ein gweithgareddau craffu
- Mae ein hadroddiadau'n fanwl gywir, ac wedi eu hategu gan dystiolaeth

SAFON 10 - CICau yn gwerthuso effaith eu camau gweithredu, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd mewn gweithgareddau yn y dyfodol

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Rydym yn gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol ein hymagwedd at ein gweithgareddau craffu
- Rydym yn defnyddio canlyniadau ein gwerthusiad i ddatblygu ein hymagwedd at graffu
- Rydym yn rhannu gwersi gydag eraill

Ymgysylltu parhaus

Er mwyn cynrychioli eich barn yn briodol, mae angen i'r CICau yng Nghymru i ymgysylltu â chi'n uniongyrchol, fel mater o drefn ac yn rheolaidd, trwy grwpiau cymunedol a mudiadau trydydd sector, ac ar y cyd gyda'r GIG, er mwyn cael gwybod eich barn am wasanaethau GIG.

Mae cyfrifoldeb gan y CICau hefyd, i fonitro a chraffu pa mor dda mae'r GIG yn ymgysylltu â chi'n uniongyrchol, wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau GIG. Felly, mae angen i CICau ddod o hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng eu gweithgareddau ymgysylltu eu hunain, a'u dylanwad ar ymagwedd a gweithgareddau ymgysylltu'r GIG.

Mae'n bwysig hefyd fod y CICau yn rhoi gwybod i chi beth maent yn ei wneud er eich budd chi, a sut mae'r gweithgareddau maent yn eu cyflawni ar eich rhan yn dylanwadu ar benderfyniadau a gweithredoedd y GIG, yn lleol ac yn genedlaethol.

Sut mae'r safonau'n berthnasol i'n gweithgareddau ymgysylltu parhaus

SAFON 1 – CICau yn gweithredu er budd y cyhoedd a chleifion yng Nghymru
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Mae ein gweithgareddau ymgysylltu yn rhoi cyfle gwirioneddol i'r cyhoedd ddylanwadu ar bolisi, cynllunio a darparu gofal iechyd • Mae ein gweithgareddau ymgysylltu wedi eu cynllunio i wneud gwahaniaeth, a gyrru gwelliannau i wasanaethau GIG • Mae ein gweithgareddau ymgysylltu yn gytbwys, cymesur ac wedi eu cynllunio i adnabod y pethau sydd bwysicaf i'r claf a'r cyhoedd • Mae'r claf a'r cyhoedd yn deall ac yn gwerthfawrogi'r rhan rydym yn ei chwarae yn yr ymgysylltu parhaus ynghylch gwasanaethau GIG
SAFON 2 - CICau yn gweithio'n effeithiol gydag eraill i ddiogelu a hybu lles pobl sy'n defnyddio gwasanaethau GIG
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Mae ein gweithgareddau ymgysylltu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd leisio pryderon am y modd mae gwasanaethau GIG yn cael eu cynllunio a'u darparu • Trwy ein gweithgareddau ymgysylltu, rydym yn adnabod problemau posib a thueddiadau yn fuan, ac yn cymryd camau priodol
SAFON 3 - Gweithgareddau a gwasanaethau CIC yn diwallu anghenion ac yn hygyrch i bawb
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Rydym yn cynnig ystod ac amrywiaeth o gyfleoedd a dulliau i annog cyfranogi • Rydym yn adnabod a goresgyn rhwystrau i gyfranogi • Caiff ein gweithgareddau ymgysylltu eu hyrwyddo'n dda ac maent yn weledol • Rydym yn ei gwneud yn hawdd i bobl gyfranogi, trwy ddefnyddio amrywiol ddulliau sy'n addas i anghenion a dewisiadau unigol

- Rydym yn hyrwyddo cyfranogi yn dewis iaith pobl
- Mae ein negeseuon yn hygyrch, ac ar gael mewn amryw fformatau.

SAFON 4 - Gweithgareddau CIC yn agored, tryloyw a chynhwysol

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Rydym yn mynd ati'n weithgar i geisio barnau grwpiau na chlywir ganddynt yn aml
- Rydym yn defnyddio iaith syml fel bod ein negeseuon yn glir, dealladwy a heb jargon

SAFON 5 - Gweithgareddau CIC yn cael eu harwain, eu hadnoddu a'u cefnogi'n briodol

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Mae ein haelodau a'n staff yn hyderus ac yn gymwys gan iddynt gael hyfforddiant effeithiol
- Mae mynediad gan ein haelodau a'n staff at ddeunyddiau ac adnoddau addas i gefnogi ymgysylltu effeithiol

SAFON 6 - CICau yn cynllunio a chyflawni eu gweithgareddau mewn modd sy'n cadw eu hannibyniaeth ac sy'n dangos eu hatebolrwydd i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Rydym yn ceisio barn y cyhoedd a'r claf wrth benderfynu ar ein blaenoriaethau a chynllunio ein gweithgareddau
- Rydym yn cyhoeddi ein cynlluniau
- Rydym yn cynnal ein cyfarfodydd pwyllgor yn gyhoeddus
- Rydym yn cyhoeddi manylion am ein gweithgareddau, canfyddiadau a'r canlyniadau a gawn

SAFON 7 - CICau yn cryfhau llais y claf a'r cyhoedd, trwy weithio gyda'i gilydd a gydag eraill

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Rydym yn cyfathrebu a gweithio gyda sefydliadau eraill, pan fo hynny er budd gorau'r claf a'r cyhoedd
- Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gynyddu ein cwmpas, cyrraedd ac effaith

- Rydym yn gweithio o fewn i fframwaith ymgysylltu â'r cyhoedd yn barhaus, sy'n galluogi i gynlluniau ac adroddiadau gael eu rhannu gydag eraill

SAFON 8 - CICau yn adlewyrchu barnau a phrofiadau'r claf a'r cyhoedd o wasanaethau GIG

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Rydym yn adlewyrchu, heb duedd, yr ystod o farnau a phrofiadau a rennir gan y claf a'r cyhoedd.

SAFON 9 - CICau yn rhannu ac adrodd ar ganlyniadau eu gweithgareddau mewn modd cytbwys ac amserol

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Rydym yn darparu atborth amserol i gyfranogwyr ar y barnau a fynegwyd, a'r penderfyniadau neu'r camau a gymerwyd o ganlyniad
- Rydym yn cyhoeddi canlyniadau ac effaith ein gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn barhaus
- Mae adroddiadau ar ein gweithgareddau ymgysylltu yn fanwl gywir, ac wedi eu hategu gan dystiolaeth

SAFON 10 - CICau yn gwerthuso effaith eu camau gweithredu, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd mewn gweithgareddau yn y dyfodol

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol:

- Rydym yn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol ein gweithgareddau ymgysylltu parhaus yn rheolaidd
- Rydym yn defnyddio canlyniadau ein gwerthusiad i ddatblygu ein hymagwedd at ymgysylltu
- Rydym yn rhannu gwersi gydag eraill

Newidiadau i wasanaethau

Er mwyn i wasanaethau iechyd lleol ddiwallu anghenion eu poblogaeth a'u cymunedau, nawr ac yn y dyfodol, mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cynllunio, eu llunio a'u datblygu ar y cyd gyda phobl leol, o'r cychwyn.

Mae cyfrifoldeb penodol gan y CICau i ymgysylltu â'r GIG, pryd bynnag mae cynigion i ddatblygu, amrywio neu newid gwasanaethau GIG yn cael eu gwneud; gan gynrychioli buddiannau'r cyhoedd a'r claf, a sicrhau bod sefydliadau GIG yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, fel y bo'n briodol, gyda'r rheiny a effeithir.

Sut mae'r safonau'n berthnasol i'n rôl ni mewn newidiadau i wasanaethau

SAFON 1 - CICau yn gweithredu er budd y cyhoedd a chleifion yng Nghymru
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Mae'r claf a'r cyhoedd yn deall ac yn gwerthfawrogi ein rôl mewn newidiadau i wasanaethau GIG • Mae ein hymagwedd at ystyried newidiadau i wasanaethau yn gytbwys, yn gymesur ac yn canolbwyntio ar y pethau sydd bwysicaf i'r claf a'r cyhoedd • Mae ein penderfyniadau'n rhoi ystyriaeth i'r angen i sicrhau gwasanaethau diogel a chynaliadwy, yng nghyd-destun y blaenoriaethau a'r adnoddau sydd ar gael i'r GIG
SAFON 2 - CICau yn gweithio'n effeithiol gydag eraill i ddiogelu a hybu lles pobl sy'n defnyddio gwasanaethau GIG
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Rydym yn asesu manteision a risgiau i'r gymuned yn gyffredinol, yn ogystal ag i grwpiau penodol
SAFON 3 - Gweithgareddau a gwasanaethau CIC yn diwallu anghenion ac yn hygyrch i bawb
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Rydym yn edrych ar gynigion i newid o safbwynt strategol, a GIG cyfan • Rydym yn ystyried unrhyw newidiadau i wasanaethau a all effeithio ar ein cymunedau, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu darparu tu allan i'r ardal.

SAFON 4 - Gweithgareddau CIC yn agored, tryloyw a chynhwysol
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Rydym yn rhoi ystyriaeth lawn i effaith tebygol newidiadau i wasanaethau ar unigolion, grwpiau penodol a chymunedau cyfan • Rydym yn ceisio'r crynhoad eangaf o farnau ac yn meithrin dadl adeiladol • Rydym yn rhoi ystyriaeth lawn i ehangder y barnau a fynegwyd gan unigolion, grwpiau penodol a chymunedau cyfan
SAFON 5 - Gweithgareddau CIC yn cael eu harwain, eu hadnoddu a'u cefnogi'n briodol
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Mae ein haelodau a'n staff yn hyderus ac yn gymwys gan iddynt gael hyfforddiant effeithiol • Mae ein haelodau a'n staff yn cael mynediad at wybodaeth ac adnoddau addas i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau effeithiol
SAFON 6 - CICau yn cynllunio a chyflawni eu gweithgareddau mewn modd sy'n cadw eu hannibyniaeth ac sy'n dangos eu hatebolrwydd i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Nid yw ein haelodau yn gorfod ymdrin ag unrhyw wrthdaro buddiannau, sy'n gallu eu rhwystro rhag gweithredu ar ran y cymunedau a effeithiwyd • Mae ein haelodau'n ystyried y dystiolaeth sy'n ymwneud â newidiadau i wasanaethau yn gyhoeddus • Mae ein haelodau'n rhydd i weithredu yn ôl y dystiolaeth

SAFON 7 - CICau yn cryfhau llais y claf a'r cyhoedd, trwy weithio gyda'i gilydd a gydag eraill
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Rydym yn gweithio gyda gwasanaethau GIG, fel bo pobl yn cael gwybod am newidiadau arfaethedig cyn gynted â phosib • Rydym yn gweithio'n adeiladol i lywio cynllun a datblygiad gwasanaethau GIG
SAFON 8 - CICau yn adlewyrchu barnau a phrofiadau'r claf a'r cyhoedd o wasanaethau GIG
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Rydym yn dadlau dros welliannau a newidiadau i wasanaethau, mewn ymateb i farnau a phrofiadau'r claf a'r cyhoedd
SAFON 9 - CICau yn rhannu ac adrodd ar ganlyniadau eu gweithgareddau mewn modd cytbwys ac amserol
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Rydym yn gwneud ein penderfyniadau yn gyhoeddus • Rydym yn cyfleu ein penderfyniadau yn eang • Rydym yn amlinellu'n glir ac yn wrthrychol ar ba sail y gwnaethpwyd ein penderfyniadau
SAFON 10 - CICau yn gwerthuso effaith eu camau gweithredu, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd mewn gweithgareddau yn y dyfodol
Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol: • Rydym yn gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol ein rhan ni mewn newidiadau i wasanaethau • Rydym yn defnyddio canlyniadau ein gwerthusiad i ddatblygu ein rhan mewn newidiadau i wasanaethau • Rydym yn rhannu gwersi gydag eraill

Cysylltu â ni



Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru
33 / 35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB

02920 235 558

enquiries@waleschc.org.uk

www.bwrddcic.cymru

@CHC Wales